Cais am Drwydded Storio dan y Rheoliadau Ffrwydron 2014

- **Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn llenwi'r cais.**
- **Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon ar gyfer cais am drwydded i storio ffrwydron pan fydd unrhyw rai o'r ffrwydron yr ydych yn bwriadu eu storio yn cael eu rhestru yn nodyn 1.**
- **Dim ond os nad ydych am storio mwy na 2000kg o ffrwydron y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon**
- **Os nad oes digon o le i roi'r wybodaeth y gofynnir amdani, ewch ymlaen ar daflen(ni) ar wahân (gweler nodyn 2)**
- **Sylwer ei bod yn drosedd dan Adran 33 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 i roi gwybodaeth ffug. Gall gwybodaeth anghyflawn neu anghywir arwain at oedi wrth brosesu eich cais.**
- **Gall y wybodaeth yn y ffurflen hon gael ei storio yn electronig. Gall y wybodaeth, pan fydd yn addas, gael ei rhannu gyda chyrff perthnasol eraill fel awdurdodau trwyddedu lleol eraill neu'r Pwyllgor Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o unrhyw wybodaeth bersonol ac am i unrhyw elfennau anghywir gael eu cywiro.**
- **Llenwch y ffurflen hon naill ai mewn inc du neu deip.**

TESTUN YN YMWNEUD Â GOFYNION GDPR I'W FEWNOSOD YMA

Mae'r cais am: [*ticiwch y blwch sy'n berthnasol]*

Trwydded storio newydd ☐ Adnewyddu trwydded storio ☐

Os mai cais adnewyddu yw hwn, nodwch y dyddiad y daw'r drwydded i ben ac unrhyw gyfeirnod

Dyddiad Dod i Ben

Cyfeirnod

Natur y busnes: *[ticiwch y categori neu gategorïau sy'n berthnasol i'r cais hwn]*

Chwarela ☐ Contractwr Dymchwel ☐ Gweithredwr arddangosfa dân gwyllt ☐

Defnyddiwr hamdden ☐ Arall [*noder os gwelwch yn dda)*

A ydych yn ymgeisio am drwydded lle bydd y storfa yn ddarostyngedig i bellteroedd gwahanu? *[Gweler nodyn 5]*
Ydw ☐ Na ☐

Manylion yr ymgeisydd: [*os ydych yn ymgeisio ar ran cwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (neu, yn yr Alban yn unig, partneriaeth), rhowch ei enw].*

Enw'r ymgeisydd:

Rhif Tŷ'r Cwmnïau *(os yn berthnasol)*

Dyddiad a man geni *[pan fydd yr ymgeisydd yn unigolyn]*

Rhif Yswiriant Gwladol *[pan fydd yr ymgeisydd yn unigolyn]*

Cyfeiriad *[yn cynnwys cod post]. Os yw'r ymgeisydd yn gwmni, rhowch y swyddfa gofrestredig*

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

Rhif ffôn symudol:

E-bost:

Cyfeiriad llawn *(gan gynnwys cod post)* y man lle bydd y ffrwydron yn cael eu storio:

A oes gennych storfa ffrwydron mewn cyfeiriad gwahanol i'r uchod? Oes ☐ Na ☐

Os oes, rhowch y cyfeiriad llawn gan gynnwys y cod post ar gyfer y storfa hon

A oes gennych drwydded ar gyfer y storfa hon? Oes ☐ Na ☐ Os oes, rhowch rif y drwydded a'r dyddiad y daw i ben

Rhif y Drwydded

Dyddiad y Daw i Ben

Os nad yr ymgeisydd yw perchennog/rheolwr y busnes, rhowch fanylion yr unigolyn sydd â chyfrifoldebau rheoli am y ffrwydron sy'n cael eu storio dan y drwydded.

Enw

swydd

Cyfeiriad yn cynnwys cod post *[os yn wahanol i'r uchod]*

Rhif ffôn cyswllt

E-bost:

Manylion cyswllt tu allan i oriau *(os yn wahanol i'r uchod)* – rhowch enw a rhif ffôn, gan gynnwys rhif ffôn symudol os yn addas, yr unigolyn y dylid cysylltu ag o mewn argyfwng.

Enw'r cyswllt

Rhif Ffôn.

Ffôn Symudol.

Y ffrwydron i'w storio a faint ohonynt

Math o Berygl neu rif UN	Cyfanswm (mas net – kg)

[Ticiwch y blwch neu flychau sy'n berthnasol]

A ydych chi (yr ymgeisydd) yn bwriadu storio mwy na 75kg (net) o ffrwydron neu eitemau pyrotechneg mewn adeilad sydd gerllaw adeiladau domestig? Ydw ☐ Na ☐

A ydych chi (yr ymgeisydd) wedi gweld trwydded neu gofrestriad[1] blaenorol yn cael ei wrthod neu ei ddiddymu? Do ☐ Na ☐

A ydych chi (yr ymgeisydd) wedi cael collfarn am unrhyw drosedd dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, ***(Gweler nodyn 4)***
Do ☐ Na ☐

A ydych chi (yr ymgeisydd) wedi cael collfarn am unrhyw droseddau eraill yn ymwneud â storio, gwerthu, cyflenwi, mewnforio neu feddiannu tân gwyllt a/neu unrhyw ffrwydron eraill? ***(Gweler nodyn 4)*** Do ☐ Na ☐

A ydych chi (yr ymgeisydd) wedi cael collfarn am unrhyw drosedd dan unrhyw ddeddfwriaeth arall gan gynnwys troseddau yn erbyn yr unigolyn, troseddau anonestrwydd a throseddau yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau a reolir? ***(Gweler nodyn 4)***
Do ☐ Na ☐

Os ydych wedi ateb unrhyw un o'r cwestiynau rhwng 2 a 5 yn gadarnhaol, rhowch ddyddiadau a manylion, gan gynnwys enw'r awdurdod trwyddedu a'r llys lle rhoddwyd y gollfarn.

1 Gweler Rheoliad 11 o'r Rheoliadau Gweithgynhyrchu a Storio Ffrwydron 2005, SI 2005/1082

Llofnod yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd yr ymgeisydd)
Trwy lofnodi'r ffurflen hon rydych yn cytuno i'r wybodaeth a roddir, yng nghyswllt y ffrwydron sy'n cael eu storio e.e. y math a'r cyfanswm, gael ei rhannu â'r gwasanaethau argyfwng petai rhywbeth yn digwydd. Os ydych yn llofnodi ar ran cwmni dylech fod yn Gyfarwyddwr neu amgáu tystiolaeth ddogfennol bod y cais hwn wedi cael ei gymeradwyo gan y bwrdd cyfarwyddwyr.
Mae'n drosedd dan Adran 33 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 i roi gwybodaeth ffug.

Llofnodwyd Dyddiad

Enw Swydd/Teitl swydd

Sefydliad *[os yn berthnasol]*

Dylai'r ffurflen gais wedi ei llenwi, ynghyd â'r dogfennau canlynol i gefnogi'r cais, gael eu hanfon at eich awdurdod trwyddedu. *(Ticiwch y blychau i gadarnhau bod y canlynol wedi cael eu cyflwyno)*

Ffi ymgeisio: *[gweler nodyn 9]* ☐ ***(Os nad ydych yn sicr am y ffi, gofynnwch i'ch awdurdod trwyddedu).***

Taflen wybodaeth ategol: *(os yn berthnasol) [gweler nodyn 2]* ☐

Cynllun o'r safle: *[gweler nodiadau 6, 7 a 10]* ☐

Cynllun llawr ***(os bydd ffrwydron yn cael eu cadw ar lawr siop neu mewn adeilad sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill yn ogystal â storio ffrwydron)*** *[gweler nodiadau 8 a 10]* ☐

<u>At ddefnydd yr awdurdod trwyddedu yn unig:</u>

Ffurflen gais wedi ei llenwi ☐

Ffi yn amgaeedig ☐

Cynllun Safle yn amgaeedig ☐

Cynllun Llawr yr Adeilad wedi ei amgáu *(os yn berthnasol)* ☐

Cyfarwyddyd i ymgeiswyr

PWYSIG Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn ymwybodol o Reoliadau Ffrwydron 2014 ac yn cydymffurfio â nhw. Mae gan yr awdurdod trwyddedu'r grym i wahardd storio ffrwydron ar y safle os cred nad yw'r safle yn addas bellach. Gall hefyd gymryd camau gorfodi os nad ydych yn storio yn ddiogel.

Gwybodaeth gyffredinol am lenwi'r cais

1. Dim ond ar gyfer ymgeisio am drwydded i storio'r ffrwydron a restrir isod y dylid defnyddio'r ffurflen hon:

- ffrwydron perthnasol (mae angen tystysgrif ffrwydron i gael a chadw ffrwydron)

- ffrwydron y mae eu caffael yn cael ei reoleiddio neu ei wahardd trwy gyfrwng Deddfau Arfau Tanio 1968 hyd 1997(c)

- powdwr di-fwg neu gaps taro

- ffrwydron sy'n cael eu storio gan unigolyn sydd wedi cofrestru fel gwerthwr arfau tanio dan adran 33 Deddf Arfau Tanio 1968(d)

***Dim ond* os ydych am storio dim mwy na 2000kg o ffrwydron y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon.** Os byddwch yn dymuno storio mwy na 2000kg o ffrwydron dylech wneud cais i'r Pwyllgor Gweithredol Iechyd a diogelwch am drwydded. Ceir rhagor o wybodaeth am drwyddedu yn www.hse.gov.uk/explosives/licensing/how-to-apply.htm

2. Os nad oes digon o le i roi'r wybodaeth y gofynnir amdani, ewch ymlaen ar daflen(ni) ar wahân. Dylech hefyd roi eich enw a'ch cyfeiriad ar frig pob taflen cyn rhoi'r taflenni ynghlwm wrth eich cais.

3. Cysylltwch â Swyddog Cyswllt Ffrwydron eich heddlu lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau am lenwi'r ffurflen hon neu am eich cais. Gellir gweld y rhestr o Swyddogion Cyswllt Ffrwydron yn www.hse.gov.uk/explosives/elo.htm

4**.** Sylwer: Gall unrhyw gollfarnau blaenorol sydd gennych fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac nid oes raid i chi gynnwys collfarnau sydd wedi eu 'treulio' ar y ffurflen gais hon. Nid yw'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr yn berthnasol i gyrff corfforaethol neu gwmnïau. Pan fydd y cais yn ymwneud â chorff corfforaethol neu gwmni dylid rhestru collfarnau'r holl gyfarwyddwyr. Pan fydd y cais yn ymwneud â phartneriaeth yn yr Alban, dylid rhestru collfarnau'r holl bartneriaid. Gellir gweld gwybodaeth am sut y bydd Awdurdodau Trwyddedu yn ystyried perthnasedd collfarnau blaenorol i gais am drwydded yn www.hse.gov.uk/explosives/index.htm

5. Pellter gwahanu - gweler Rheoliad 27 Rheoliad Ffrwydron 2014. Fel arfer ni fydd gofyn i chi gadw pellter gwahanu os na fyddwch yn storio **mwy** na:

- 250 kg HT4

- 25kg HT3 (neu gyfuniad o HT3 a HT4)

- 0.1 kg HT1

- 0.1 kg HT2

ar un safle. Os nad ydych yn sicr a yw eich storfa neu'r mannau lle byddwch yn gweithgynhyrchu neu brosesu ffrwydron yn ddarostyngedig i bellter gwahanu, cysylltwch â'ch awdurdod trwyddedu lleol.

Dylai'r dogfennau canlynol gael eu cyflwyno gyda'r ffurflen gais:

6. Cynllun ar raddfa fydd yn ddigon manwl i ddangos lleoliad y safle yng nghyswllt yr hyn sydd o'i gwmpas (h.y. ffyrdd wedi eu henwi neu â rhifau, pentrefan, pentrefi neu nodweddion daearyddol). Pan na fydd gan y safle gyfeiriad post dylai hwn fod ar y raddfa 1:25000 o leiaf.

7. Os yw'r storfa yn ddarostyngedig i bellter gwahanu bydd angen i chi hefyd ddarparu map Cynllun Safle Arolwg Ordnans (neu debyg) yn dangos lleoliad y storfa a'r pellter rhyngddi ag unrhyw adeiladau gerllaw. Dylai'r cynllun hefyd ddangos unrhyw ardaloedd lle'r ydych yn bwriadu prosesu neu weithgynhyrchu ffrwydron pan na fydd angen trwydded i'r gweithgareddau hynny dan reoliad 6 ER2014. Bydd y raddfa yn ddibynnol ar y pellter gwahanu. Ar gyfer pellter o hyd at 200 metr, byddai angen 1:1250 fel arfer tra byddai mwy o bellter yn gofyn am 1:2500 neu hyd yn oed Super Plan.

Pan fydd y cynllun hwn yn dangos y safle yn glir o ran yr hyn sydd o'i gwmpas gellir ei gyfnewid am y cynllun y cyfeirir ato yn 6 uchod.

8. Os ydych yn bwriadu storio, prosesu neu weithgynhyrchu ffrwydron mewn adeilad sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion eraill dylech gynnwys cynllun llawr yn dangos y mannau yn yr adeilad lle'r ydych yn bwriadu storio, prosesu neu weithgynhyrchu'r ffrwydron.

9. Rhaid i'r ffi hefyd gael ei chyflwyno gyda'r cais. Ceir gwybodaeth am ffioedd yn www.hse.gov.uk/explosives/licensing/fees.htm, neu cysylltwch â'ch Swyddog Cyswllt Ffrwydron i gael cyngor.

Adnewyddu trwydded

10. Os na fu newidiadau perthnasol yn y defnydd o'r safle, y patrwm na'r mannau lle mae ffrwydron yn cael eu storio, neu o ran agosrwydd y mannau a ddiogelir at y storfeydd ers i'r drwydded gael ei rhoi yn wreiddiol neu gael ei hadnewyddu ddiwethaf, yna, yn gyffredinol, ni fydd angen cyflwyno cynllun newydd i'ch awdurdod trwyddedu.

Y math o berygl a'r cyfanswm

11. Bydd ar Swyddog Cyswllt yr Heddlu angen gwybod beth yw math y perygl a faint o'r ffrwydron yr ydych yn dymuno eu storio i bennu a yw eich storfa yn addas. Bydd faint y byddwch yn cael ei storio yn dibynnu ar fath perygl y ffrwydron. Cysylltwch â'ch cyflenwr os nad ydych yn sicr am y math perygl o ffrwydryn yr ydych am ei storio.

12. Mae'r "cyfanswm" yn cyfeirio at '***fas net***' y ffrwydron. Mae hyn yn golygu pwysau'r ffrwydryn sydd mewn eitem h.y. llai'r pecyn, casyn ac ati

Cyfnod dilysrwydd:

13. Bydd y Drwydded yn cael ei rhoi i redeg am gyfnod na fydd yn hwy na dyddiad dod i ben eich tystysgrif ffrwydron

Yswiriant

14. Mae'n ofyn cyfreithiol i'r rhan fwyaf o gyflogwyr yswirio yn erbyn atebolrwydd am anaf neu afiechyd i'w gweithwyr yn deillio o'u cyflogaeth. Mae Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 yn sicrhau fod gennych o leiaf isafswm lefel o yswiriant yn erbyn hawliadau o'r fath. I gael rhagor o wybodaeth ewch i http://www.hse.gov.uk/pubns/hse40.pdf

15. Nid oes angen yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus dan y gyfraith iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, os ydych yn gweithgynhyrchu neu yn storio ffrwydron (gan gynnwys tân gwyllt) efallai y byddwch yn dymuno cymryd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae nifer o gymdeithasau masnach diwydiannol a chyrff proffesiynol yn gofyn am hyn fel amod aelodaeth. Mae'n ofynnol i weithredwyr arddangosfeydd proffesiynol sy'n defnyddio tân gwyllt categori F4, pyrotechneg theatrig T2 neu eitemau pyrotechneg P2 dan gyfraith diogelwch cynnyrch i gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer eu defnyddio.